


Hawdd ei Ddeall

Rhaglen Sgrinio
Ymlediaidau Aortig
Abdomenol Cymru



Wales Abdominal
Aortic Aneurysm
Screening Programme

Am eich prawf Ymlediad Aortig Abdomenol (YAA)



Mae'r prawf yma i ddynion 65 oed a throsodd



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



www.icc.gig.cymru/sgrinio-abdomenol

Sut i ddefnyddio'r daflen yma



Mae hon yn daflen Hawdd ei Ddeall. Mae'r geiriau yn hawdd eu darllen a'u deall. Mae geiriau anodd mewn lliw **trwm** y tro cyntaf maen nhw'n cael eu defnyddio.



Efallai eich bod angen help a chymorth i ddarllen a deall y daflen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



English

Mae'r daflen yma ar gael yn Saesneg.

Cynnwys: Beth sydd yn y daflen yma

Am beth mae'r daflen yma?

4

Beth ydy YAA?

5

Am eich prawf YAA

6

Canlyniadau eich prawf YAA

10

Pwy sydd yn gallu cael YAA?

12

Ble alla i gael mwy o wybodaeth?

14

Cadw'n iach


15

Am beth mae'r daflen yma?



Mae'r daflen yma am brawf iechyd i ddynion.


Mae'n dweud wrthyich am fynd am eich sgan **ymlediad aortig abdomenol**. Fe'i gelwir yn sgan YAA.




Mae'r prawf yn gwirio am unrhyw chwydd ar eich aorta. Tiwb sy'n cario gwaed o amgylch eich corff yw eich aorta.




Rydych chi'n fwy tebygol o gael YAA os ydych chi'n ddyn 65 oed neu hŷn.



YAA ydy ymlediad aortig abdomenol (chwydd).



Weithiau mae'r aorta yn eich bol (**abdomen**) yn mynd yn wan ac yn ymestyn. Mae hyn yn cael ei alw yn **ymlediad**.



Mae ymlediad yn gallu rhwygo neu dorri. Gallwch chi farw os bydd hyn yn digwydd.

Am eich prawf YAA



Y ffordd orau o chwilio am YAA ydy cael **sgan uwchsain**.




Sgan o'r bol ydy'r prawf. Mae fel y sgan mae merched yn ei gael pan maen nhw'n feichiog.



Mae'r sgan yn edrych i weld os oes gennych chi ymlediad.



Y mwyaf cynnar rydyn ni'n darganfod ymlediad, y mwyaf hawdd ydy eich trin chi.




Fe fydd dynion 65 oed yn cael llythyr i gael sgan YAA.



Mae dynion dros 65 oed yn gallu gofyn am sgan YAA.



Eich dewis chi ydy mynd am sgan YAA.



Fe fydd eich llythyr yn dweud dyddiad ac amser eich prawf.



Rhowch wybod inni cyn eich apwyntiad os oes gennych chi anabledd neu os ydych chi angen cymorth.

Rydych chi'n gallu gofyn am apwyntiad hirach.



Gall eich sgan fod mewn practis meddyg teulu, yr ysbyty lleol neu glinig cymunedol.



Rydych chi'n gallu dod gydag aelod o'r teulu, ffrind neu weithiwr cefnogi.



Mae'r person fydd yn gwneud y sgan YAA yn cael ei alw yn **sgriniwr**.




Fe fydd y sgriniwr yn gofyn i chi os ydych chi'n hapus i gael y prawf.



Fe fydd angen i chi orwedd ar eich cefn a chodi eich dillad.



Fe fydd y sgriniwr yn rhoi gel arnoch chi ac yn pwyso'r **sganiwr** dros ech bol.



Mae'r sgan yn gallu teimlo ychydig yn anghyfforddus. Mae e'n cymryd ychydig funudau i'w wneud.

Canlyniadau eich prawf YAA



Fe fydd y sgriniwr yn rhoi'r canlyniadau i chi ar y diwrnod.



Does gan y rhan fwyaf o ddynion ddim YAA.
Os nad oes YAA, dydych chi ddim angen sgan arall.



Os oes gennych chi YAA, fe fydd nyrs yn cysylltu â chi.



Os oes gennych chi YAA maint bach neu ganolog, fe fyddwch chi angen rhagor o sganiau.



Os oes gennych chi YAA mawr, fe fydd angen i chi weld meddyg yn yr ysbyty.



Os oes gennych chi YAA mawr, efallai bydd angen i chi gael **llawdriniaeth**.

Pwy sydd yn gallu cael YAA?

Rydych chi'n fwy tebygol o gael YAA os:



Rydych chi'n ddyn. Mae dynion yn fwy tebygol na merched o gael YAA.



Rydych chi'n ysmegu.



Mae gennych chi bwysedd gwaed uchel



Mae gennych chi golestrol uchel. Mae hyn yn meddwl bod gennych chi ormod o fraster yn eich gwaed.



Mae rhywun yn eich teulu wedi cael YAA.



Os ydych chi'n poeni am newid yn eich iechyd siaradwch â'ch meddyg.

Mae unrhyw un yn gallu cael YAA. Does dim **symptomau**.

Ble alla i gael mwy o wybodaeth?



Ffôn:

De-ddwyrain Cymru: 01433 235161

Canolbarth a Gorllewin
Cymru: 01792 453162

Gogledd Cymru: 01492 863563



Ebost:

sgrinio-yaa@wales.nhs.uk



Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd yn cymryd yr un faint o amser i'ch ateb, pa bynnag iaith rydych yn ei dewis.



Gwefan:

icc.gig.cymru/sgrinio-abdomenol



Am ragor o wybodaeth a chymorth ewch i:
www.circulationfoundation.org.uk



Stopio ysmygu. Rydych chi'n gallu cael help am ddim i'ch cefnogi chi i stopio ysmygu.

Ffoniwch Helpwch fi i Stopio ar: 0800 085 2219.



Bwyta bwyd iach.



Symud mwy.



Yfed llai o alcohol.